



<b>Teitl y Cyfarfod:</b>	<b>Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru</b>	
<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	10 Tachwedd 2015 10.30 – 13.00	<b>Lleoliad:</b> Cymdeithas yr Hostelau Ieuencid Caerdydd Canolog, Stryd East Tyndall, Caerdydd, CF10 4BB <a href="http://www.yha.org.uk/hostel/central">http://www.yha.org.uk/hostel/central</a>
<b>Presennol:</b>	Ruth Hall (CNC, Cadeirydd), Carys Drew (CNC, Ysgrifenyddiaeth), Mark Weston (Cymdeithas Ceffylau Cymru), Andrew Stumpf (Glandŵr Cymru), Stuart France (Cyngor Ogofa Cymru), Karen Anthony (Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad), Claire Goodman (Sefydliad Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Rheoli Mynediad), Gwenda Owen (Clwb Teithio Beicwyr), Tom Packham (Dŵr Cymru), Bernard Griffiths (rhan) (Undeb Ffermwyr Cymru), Jean Rosenfeld (Fforymau Mynediad Lleol yng Nghymru/Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig), Duncan Green (LARA), Rachel Lewis-Davies (NFU Cymru), Richard Neale (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Lyn Cadwallader (Un Llais Cymru), Beverley Penney (Cymdeithas Mannau Agored), Rebecca Brough (Y Cerddwyr), Gwyn Smith (Sustrans), Mark Stafford-Tolley (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru), Rowland Pittard (Cymdeithas yr Hostelau Ieuencid), Catrin Dellar (Llywodraeth Cymru), Jont Bulbeck (CNC)	
<b>Ymddiheuriaidau:</b>	Janet Williams (Cymdeithas Gyrru Cerbydau Prydain), Elfyn Jones (Cymdeithas Mynydda Prydain), Charles de Winton (Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad), David Evans (Ymddiriedolaeth Cwm Elan), Ruth Rourke (Sefydliad Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Rheoli Mynediad/Gweithgor Rheolwyr Hawliau Tramwy Cymru),* Rebecca Mattingley (Chwaraeon Cymru), Kerry Thatcher (Croeso Cymru), Paul Donovan (Sefydliad Twristiaeth Gweithgareddau Cymru), Richard Ball/Anthony Richards (Parciau Cenedlaethol Cymru)	
<b>Rhif eitem:</b>	<b>Eitem</b>	<b>Cam gweithredu</b>
1.	<b>Croeso ac Ymddiheuriadau.</b>	
	Croesawodd Ruth bawb i'r cyfarfod ac i Gymdeithas yr Hostelau Ieuencid Caerdydd Canolog. Byddai Rowland Pittard, cynrychiolydd Cymdeithas yr Hostelau Ieuencid ar y Fforwm, yn cyflwyno eitem, ac	

fe ddywedodd yntau mai dyma oedd 50fed cyfarfod Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru yr oedd wedi'i fynychu.

Nododd Ruth fod Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru wedi cael ei drafod ar Countryfile y BBC, a gwnaeth hi longyfarch Angela Chalton, y Cerddwyr, ac Elfyn Jones, Cyngor Mynydda Prydain, a oedd wedi cael eu cyfweld.

Croesawyd dau gynrychiolydd newydd:

- Byddai Mark Stafford-Tolley yn cynrychioli Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (yn sgil ymddeoliad Ian Dutch). Roedd Mark wedi mynychu Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru yn y gorffennol, ac ef yw cadeirydd Gweithgor Rheolwyr Hawliau Tramwy Cymru.
- Byddai Mr Lyn Cadwallader yn cynrychioli Un Llais Cymru, y corff cenedlaethol ar gyfer cynghorau cymuned a thref.

Nodwyd ymddiheuriadau a chroesawyd y rhai a oedd yn mynychu yn eu lle: Claire Goodman (Sefydliad Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Rheoli Mynediad), Rebecca Brough (Y Cerddwyr), a Karen Anthony (Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad).

Nodwyd bod y camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol wedi cael eu cwblhau.

---

## 2. Cyfraniadau gan Bawb

Trafodwyd yr eitem hon yn gynnwys oherwydd problemau TG a oedd yn effeithio ar y cyflwyniadau.

Cyfeiriodd Ruth Hall at y nifer o ymgynghoriadau oddi wrth Lywodraeth Cymru yn ddiweddar, ac ar ei rhan, sydd o ddiddordeb i'r fforwm.

- **Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru ar gyfer 'Gwella cyfleoedd i gael mynediad i'r awyr agored ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol'.**

**Pwyntiau trafod:**

- Rhannodd Catrin Dellar nifer o bwyntiau: Caeodd yr ymgynghoriad ar 2 Hydref 2015. Fel arfer, mae ymgynghoriadau o'r fath yn derbyn tua 200 o ymatebion, ond yn achos y papur gwyrdd hwn derbyniwyd bron i 6,000 o ymatebion. Gan fod llawer o'r ymatebion ar ffurf dempled, roedd hyn yn ei wneud yn haws i ymdrin â nhw yn un, ac ar yr un pryd nodi unrhyw bwyntiau ychwanegol. Roedd gan dîm Llywodraeth Cymru ddigon o adnoddau ar gyfer rheoli'r broses ymateb. Yn y pen draw, bydd y goblygiadau ynglŷn ag adnoddau ar gyfer ymdrin â chanlyniadau'r

ymgyngoriad yn fater i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol, o ran sut i fynd i'r afael â'r mater hwn.

- At ei gilydd, roedd naws yr ymatebion yn gadarnhaol iawn, o ran mynediad presennol ac ynglŷn ag annog pobl i fynd i'r cefn gwlad er mwyn gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored. Roedd 2,000 o'r ymatebion yn seiliedig ar dempled y Clwb Teithio Beicwyr. Roedd yr Undeb Ffermwyr Cenedlaethol, Undeb Ffermwyr Cymru a'r Cynghrair Cefn Gwlad hefyd wedi darparu nifer o dempledi ymateb. Oherwydd y niferoedd uchel, roedd yr amserlen ar gyfer coladu wedi cael ei hestyn. Byddai'r crynodeb o'r ymatebion yn cael ei gyhoeddi yn 2016, cyn y cyfnod sy'n arwain at etholiadau nesaf y Cynulliad Cenedlaethol. Bu diddordeb cadarnhaol gan y gweinidog yn y materion, a'r materion trawsbynciol yn ei bortffolio.
- Nododd Catrin, ynglŷn â'r 'fersiwn i bobl ifanc', y derbyniwyd rhai ymatebion, gyda rhai ymatebion grŵp oddi wrth sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc. Fodd bynnag, gwnaeth hi nodi'r angen i wella ymgysylltiad.
- Mae angen cyd-fynd â'r broses o wella lles a'r amrywiaeth o weithgareddau (nid oedd ogofa wedi cael ei gynnwys ym mhapur Llywodraeth Cymru, nac ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i'r ymgynghoriad), ac ystyried a yw ymatebion wedi cael eu derbyn oddi wrth randdeiliaid ym maes iechyd.
- Nododd Catrin Dellar fod rhai ymatebion wedi cael eu derbyn oddi wrth feddygon, ond nid oedd yn glir ar y pryd hwnnw faint yr oedd wedi cael eu derbyn oddi wrth fyrdau iechyd. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod cysylltiadau rhwng mynediad i weithgareddau hamdden ac iechyd a lles, a dyna pam roedd yn cymryd rhan yn y Grŵp Gweithgareddau Corfforol a arweinir gan Adran Chwaraeon Llywodraeth Cymru a'r Ysgrifenyddiaeth.
- Nododd Ruth Hall fod Cyfoeth Naturiol Cymru newydd gyhoeddi ei brospectws iechyd, ac roedd ar gael ar ei wefan yn <http://naturalresources.wales/people-and-communities/health-and-wellbeing/?lang=cy>
- Dywedodd Ruth Hall fod y nifer uchel o ymatebion a'r diddordeb sylweddol yn nodedig, ac fe fyddai'n ddiddorol dilyn manifestos y pleidiau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Gwnaeth hi gynnig cymorth y Fforwm Mynediad Cenedlaethol fel grŵp a allai helpu Llywodraeth Cymru i ystyried y dyfodol ymhellach, yng nghyd-destun yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd. Roedd ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i'r ymgynghoriad ar gael yn: <http://naturalresources.wales/media/5627/improving-opportunities-to-access-the-outdoors-for-responsible-recreation-org.pdf>

- **Canllawiau Drafft ar Hawliau Tramwy**

Nodwyd bod ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i'r ymgynghoriad ar gael yn:

<http://naturalresources.wales/media/5554/guidance-for-local-authorities-on-public-rights-of-way.pdf>

- **Canllawiau Drafft ar Gynllun Gwella Hawliau Tramwy**

Roedd yr ymgynghoriad targedig hwn ar agor tan 27 Tachwedd 2015, a dylid anfon sylwadau trwy e-bost at:

[ROWIP.Guidance.Review@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:ROWIP.Guidance.Review@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn arwain y gwaith o ddatblygu'r canllawiau ar ran Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd is-grŵp y Fforwm Mynediad Cenedlaethol yn ddiweddar, ac fe gyhoeddir nodyn yn ei gylich yn fuan. Y bwriad oedd cyhoeddi'r canllawiau fel cyngor ar gyfer Llywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Chwefror 2016.

**Pwyntiau Trafod:**

- Mae angen ymdrin â'r ymgynghoriadau mewn ffordd integredig – er eu bod yn gysylltiedig, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ymdrin â nhw ar wahân.
- Mae diffyg adnoddau awdurdodau lleol yn peri pryder.

**Wedyn, ystyriwyd diweddariadau a chyfraniadau ysgrifenedig eraill:**

**Cyfoeth Naturiol Cymru – Diweddariad y Bwrdd**

Rhoddodd Ruth Hall ddiweddariad ar newidiadau diweddar i fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru. Roedd gan Gyfoeth Naturiol Cymru gadeirydd newydd (Diane McCrea) ac is-gadeirydd newydd (Madeleine Harvard).

Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ar gael ar-lein yn:

<https://naturalresources.wales/about-us/our-chair-board-and-executive-team/?lang=cy>

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

Nododd Ruth fod ymgynghoriad allan am y dangosyddion sydd yn yr arfaeth ar gyfer mesur y gwaith o gyflawni'r Ddeddf, a allai fod o

ddiddordeb i aelodau o'r fforwm. Roedd rhagor o wybodaeth ar-lein, a oedd yn cynnwys taflen esboniadol ddefnyddiol ac animeiddiad ynglŷn â'r Ddeddf. Mae'r ymgynghoriad yn dod i ben ar 11 Ionawr 2016.

<http://gov.wales/consultations/people-and-communities/future-generations-act-how-do-you-measure-a-nations-progress/?skip=1&lang=cy>

### **Cymdeithas yr Hostelau Ieuentid**

Gwnaeth Rowland Pittard nodi gwaith parhaus Cyfoeth Naturiol Cymru ar Brosiect LIFE Natura 2000. Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi diweddariad pellach yng nghyfarfod nesaf Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru ym mis Mawrth.

### **Fforymau Mynediad Lleol**

Gofynnodd Jean Rosenfeld a oedd y thema o lwybrau a oedd yn cael eu hyrwyddo gyda Chroeso Cymru ar dir y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei reoli'n nodi ym mha ffordd y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio yn y dyfodol – h.y. heb fynd tu hwnt i'r ffiniau.

Nododd Jont Bulbeck fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi hyrwyddo 20 llwybr yn y gorffennol trwy ddefnyddio gwybodaeth bartneriaid.

### **Sefydliad Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Rheoli Mynediad**

Gwnaeth Claire Goodman bwysleisio'r pwysau sydd ar adnoddau awdurdodau lleol. Nododd y gwahaniaethau rhwng deddfwriaeth Lloegr a deddfwriaeth Cymru ynglŷn â mynediad, gan ddweud yr hoffai aelodau'r Sefydliad Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Rheoli Mynediad weld y gwahaniaethau hyn yn cael eu dogfennu. Croesawyd y ffaith y bydd y gofyniad gorfodol ar gyfer chwiliadau tir (CON 29) bellach yn cynnwys gwybodaeth am hawliau tramwy cyhoeddus. Bydd hyn yn dod i rym gydag effaith o 4 Gorffennaf 2016. Gwnaeth y Sefydliad Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Rheoli Mynediad groesawu hyn, er bod rhai goblygiadau ynglŷn ag adnoddau. Mae toriadau'n gwasgu'n drwm, ac mae llawer o achosion lle mae rolau staff yn cael eu hehangu'n sylweddol.

### **Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Gwnaeth Mark Stafford-Tolley gytuno â Claire Goodman, a nodi hefyd bod adolygiad o'r dirwedd wedi cael ei gyhoeddi. Nododd yr angen am gydweithrediad gwell rhwng awdurdodau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn eu gwaith, e.e. mewn cynigion am grantiau i'r Cynllun Datblygiad Gwledig, ond hefyd yn eu swyddogaethau bob dydd lle bo hynny'n briodol.

## LARA

Nododd Duncan Green yr achos CON 29 yn Swydd Rydychen, lle y dywedwyd bod ffordd hynafol yn un breifat er yr ymchwiliadau i'w statws. Roedd y dyfarniad hwn yn ei wneud yn glir y dylai awdurdodau lleol gynnwys y broses o ystyried hawliau posibl.

Ynglŷn â dyddiad cau terfynol Deddf y Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn 2026, roedd Fforwm Mynediad Lleol Swydd Henffordd wedi cynnal is-grŵp i drafod ffyrdd a gollwyd, gan edrych ar gofnodion priffyrdd sy'n bodoli eisoes a'r ystod o adnoddau a gwybodaeth. Yn ôl pob golwg, roedd llawer o fylchau, ac mae llawer o lwybrau troed a llwybrau ceffyl yn ymddangos yn ddiogel, ond maent yn dod i ben ar briffyrdd sydd heb eu cofnodi. Roedd y Fforwm Mynediad Lleol wedi paratoi adroddiad sydd ar-lein:

[http://www.laragb.org/pdf\\_files/PublicRightsofWay-v1.1-Nov15.pdf](http://www.laragb.org/pdf_files/PublicRightsofWay-v1.1-Nov15.pdf)

## Cymdeithas Mannau Agored

Nododd Beverley Penney yr angen i awdurdodau lleol, ac eraill yn y sector cyhoeddus, ystyried buddiannau'r cyhoedd wrth wneud penderfyniadau ynglŷn ag adnoddau. Gwnaeth hi gyfeirio at aelodau newydd Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru, ac argymhell bod aelodau newydd yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd y Fforwm Mynediad Cenedlaethol yn y dyfodol.

**Cam gweithredu 53.1** Bydd cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei wahodd i gyfarfodydd Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru yn y dyfodol.

Ruth Hall  
/ Carys  
Drew

## Cymdeithas Ceffylau Prydain

Tynnodd Mark Weston sylw at nifer o bwyntiau yn y papur gwyrdd a oedd yn peri pryder, a nododd eitemau yn ei adroddiad ysgrifenedig, gan gynnwys y treial ar gyfer giatiau hunan-gau, a chanlyniadau'r arolwg marchogol newydd.

## Clwb Teithio Beicwyr

Nododd Gwenda Owen fod y Clwb Teithio Beicwyr wedi annog ymatebion i'r papur gwyrdd trwy ei ymgyrch 'Trails for Wales'. Dyma oedd y tro cyntaf i'r clwb weithio gyda'i gilydd, a denu mewnbwn gan bobl sy'n ymweld â Chymru. Roedd y Clwb Teithio Beicwyr am weld adnoddau ar gyfer mynediad yn cael eu defnyddio mewn modd cynaliadwy a chyfrifol.

## Un Llais Cymru

Tynnodd Lyn Cadwallader sylw at y toriadau syfrdanol mae llywodraethau lleol yng Nghymru yn eu hwynebu – rhyw £900 miliwn dros y blynyddoedd nesaf. Ynglŷn â rôl cynghorau cymuned a thref, roedd problemau enfawr ynglŷn â thirfeddiannaeth a mapio, a'r risgiau ynghlwm o dreth ddwbl os yw cymunedau lleol yn dechrau gwario ar ddyletswyddau awdurdodau lleol. Byddai rolau pwysig mewn byrddau gwasanaethau cyhoeddus, lle byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yno er mwyn cynrychioli amrywiaeth o grwpiau.

---

### 3. Cymdeithas yr Hostelau Ieuentid a'i heffaith

Croesawodd Rowland Pittard y fforwm i Hostel Caerdydd Canolog a'i chyfleusterau cynhadledd newydd.

Rhoddodd hanes byr o Gymdeithas yr Hostelau Ieuentid, elusen yn Lloegr a Chymru sydd bellach yn 86 mlwydd oed. Fel elusen, mae ei holl incwm yn cael ei ail-fuddsoddi yn ei gwaith, megis y rhwydwaith o gyfleusterau ac adeiladau, a chyflawni gwaith ar y cyd gyda sefydliadau gwirfoddol eraill. Roedd y rhwydwaith presennol yn cynnwys rhyw 197 o hostelau (gan gynnwys hostelau mentrau a hostelau cysylltiol), 28 ohonynt yng Nghymru. Lleolir y rhan fwyaf o'r hostelau yn y parciau cenedlaethol, ac mae gan Gymdeithas yr Hostelau Ieuentid gysylltiadau agos â'r Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol, gan gynnwys prosiect MOSAIC.

Dyma amcan elusenol Gymdeithas yr Hostelau Ieuentid:  
"Helpu pawb, yn enwedig pobl ifanc sydd â moddion cyfyngedig, i gael dealltwriaeth well o'r cefn gwlad, ac i werthfawrogi gwerth diwylliannol trefi a dinasoedd, yn enwedig trwy ddarparu Hostelau Ieuentid neu lety arall iddynt pan fyddant yn teithio, ac o ganlyniad hyrwyddo eu hiechyd, eu hamdden a'u haddysg."

Gwnaeth Rowland rannu hefyd Cenhadaeth a Gweledigaeth Cymdeithas yr Hostelau Ieuentid, a'i gwaith wrth gyflawni'r rhain. Cafodd canlyniadau gwaith Cymdeithas yr Hostelau Ieuentid yn 2014-2015 eu hamlinellu yn yr adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar 'Our Impact: A look back at a year of positive change 2015', sydd ar gael ar-lein:

<http://www.yha.org.uk/sites/default/files/YHA-Impact-Review-2015.pdf>

#### **Cynhwyswyd pwyntiau trafod y canlynol:**

- Cyfraddau deiliadaeth: gwelir rhai patrymau o ran cyfnodau prysur a chyfnodau tawel.
- Y graddau mae Cymdeithas yr Hostelau Ieuentid yn cael eu hariannu gan aelodaeth neu ddulliau eraill, e.e. cyllid grantiau, a'r ffaith bod hostelau prysur mewn gwirionedd yn cynnal rhai tawel.
- Sut mae Cymdeithas yr Hostelau Ieuentid yn cael cydbwysedd rhwng rhedeg hostelau mewn dinasoedd yn ogystal ag mewn

parciau cenedlaethol. Mae dinasoedd megis Caerdydd yn darparu cyswllt â'r cefn gwlad, ac yn helpu Cymdeithas yr Hostelaau Ieuentid i gyflawni'r amcan ychwanegol o 'Ddarganfod gorpwelion ehangach diwylliant a lleoliad'.

---

#### 4. Gwaith Mynediad yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Nododd Richard Neale fod mynediad a hamdden wrth wraidd gwaith yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a rhoddodd wybodaeth ynglŷn â'r dull sydd wedi cael ei ddefnyddio dros yr 20 mlynedd diwethaf. Roedd tueddiad cynyddol i gymryd rhan mewn gweithgareddau a gwaith yn yr awyr agored.

Arweinydd y ddamcaniaeth y tu ôl i'r dull cyfredol oedd Dame Helen Ghosh, y Cyfarwyddwr Cyffredinol Cyfredol.

Esboniwyd y diagram yn dangos egwyddorion rhaglen Tir Awyr Agored a Natur ymhellach gyda dyfyniad gan Peter Nixon, Cyfarwyddwr Cadwraeth.

"Yn y bôn, mae natur o dan y llach. Nid oes dim yn peri bygythiad mwy i'n diben craidd ni fel elusen. Ein gweledigaeth a diben rhaglen *Tir Awyr Agored a Natur* yw cael tirluniau sy'n iach, cyfoethog â hanes a bywyd gwyllt, ac yn cael eu mwynhau gan bobl – ac sy'n gynhyrchol o ganlyniad."

Nododd Richard fod mynediad yn cael ei gynnwys yn yr holl lifoedd gwaith i ryw raddau. Dangosodd y mathau gwahanol o waith a rheolaeth a wneid trwy ganolbwyntio ar rai enghreifftiau o'r llifoedd gwaith ar gyfer 'Profiad a Gweithgareddau' a gwaith 'Arfordirol' sy'n cael eu cyflawni ledled Cymru. Cafodd y gwahanol ddulliau rheoli sy'n galluogi'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i lywio buddsoddiad eu categoreiddio fel a ganlyn:

- Gweithredol (coch): lle roedd rheolaeth yn cynnwys staff, cyfleusterau a pharcio ceir
- Chwilota (oren): lle roedd profiadau wedi'u trefnu, opsiynau amgen ar gael gan gynnwys teithiau cerdded hawdd, staff tymhorol o bosibl, parcio ceir, a chyfleusterau.
- Gwyllt (gwyrdd): lle roedd disgwyl i ymwelwyr ddod â'u mapiau eu hunain, a lle roedd ychydig iawn o ymyrraeth gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Ynglŷn â'r arfordir, nododd Richard fod ymwybyddiaeth y cyhoedd o fannau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar hyd yr arfordir yn isel iawn, ac o'r herwydd roedd llawer o weithgarwch wedi cael ei gynnal yn ddiweddar er mwyn codi ymwybyddiaeth ac i annog pobl i gymryd rhan. Roedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gweithio tu hwnt i ffiniau tîrffeddiannaeth yn fwyfwy, er mwyn gwella profiad ymwelwyr. Roedd Rhosili yn enghraifft lle roedd y maes parcio wedi cael ei



gaffael am y rheswm hwn, a'r safle hwn a oedd yn derbyn nifer mwyaf ymwelwyr yng Nghymru.

Nododd Richard, o ganlyniad i waith ar fynediad arfordirol yn Lloegr, fod yr Ymddiriedaeth Genedlaethol wedi cael cyfleoedd i weithiau gyda Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru er mwyn gwella mynediad at arfordiroedd Cymru. Rhannodd nifer o enghreifftiau o reolaeth yr Ymddiriedaeth Genedlaethol wrth ymateb i addasu arfordiroedd.

Roedd y gweithgareddau'n cynnwys y canlynol: Gwersylla, a hwyluso profiad pobl o hyn, arfordira, a oedd mewn rhai mannau wedi cyrraedd lefel lle roedd pobl yn cystadlu am le, a oedd wedi arwain at sŵn ac aflonydd. Roedd angen rheoli gweithgarwch, a chyda chyllid gan Groeso Cymru, datblygwyd Concordat Arfordiroedd Sir Benfro. Mae hwn ar waith ar dri safle prysur, ac roedd yr arolygiad cyntaf o'r siarter awyr agored ar gyfer grwpiau a drefnwyd wedi derbyn croeso da – roedd yn cynnwys calendr ar-lein er mwyn rheoli gweithgarwch. Roedd Chwaraeon Cymru yn cynyddu gweithgareddau ar safleoedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

#### **Cynhwyswyd pwyntiau trafod y canlynol:**

- Y graddau mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn ystyried hawliau tramwy pan fyddant yn datblygu llwybrau ar ei thir ei hun.
- Y cyfle i geidwadwyr lleol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol gynyddu cysylltiadau â fforymau mynediad lleol, yn enwedig o ystyried fforymau mynediad lleol mewn cynlluniau gwella hawliau tramwy, a'r cyfleoedd ar gyfer defnyddio dull integredig o reoli mynediad.

---

## **5. Beth mae ein maniffesto yn ei ddweud amdanom?**

Dechreuodd Rebecca Brough trwy nodi bod gan y Cerddwyr tua 6,000 o aelodau yng Nghymru, 44 grŵp cerdded, a 24 grŵp cynnal a chadw gwirfoddol.

Lansiwyd eu maniffesto *Wales for Walking* ym mis Gorffennaf 2015. Mae'n adlewyrchu pryderon aelodau a'u gweledigaeth ar gyfer diwylliant cerdded Cymru – i sicrhau mai Cymru yw'r wlad orau yn y byd ar gyfer cerddwyr.

Mae'r maniffesto'n cynnwys tair thema:

- helpu pobl i ddarganfod eu traed
- gwlad sydd wedi'i chynllunio ar gyfer cerdded
- edrych o'r newydd ar ddeddfwriaeth ar gyfer gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored

O fewn y rhain, mae 13 gofyniad ar gyfer y llywodraeth a chyrrff cyhoeddus, ynghyd â'r camau gweithredu y bydd y Cerddwyr yn eu cyflawni er mwyn symud pob mater yn ei flaen.

Mae gwerth y rhwydwaith sy'n bodoli eisoes yn cynnal y negeseuon drwyddynt draw.

Mae'r gofynion wedi eu cynnwys yn y meysydd canlynol:

1. Annog pobl i fod yn fwy corfforol weithgar trwy gerdded:  
Lets Walk Cymru – mae angen arnynt ragor o gymorth er mwyn datblygu cynllun llwyddiannus, gan fyrddau iechyd, awdurdodau lleol a meddygon teulu. Bydd y Cerddwyr yn chwilio am ffyrdd i gysylltu ein grwpiau cerdded â grwpiau Lets Walk Cymru.
2. Helpu rhagor o bobl ifanc a theuluoedd i fwynhau'r awyr agored:  
Addysg a sgiliau – hawliau a chyfrifoldebau yn y cwricwlwm cenedlaethol. Y Cerddwyr – rhagor o becynnau cerdded ar gyfer teuluoedd. Cyfleoedd ar gyfer Gwobr Dug Caeredin; Partneriaethau gyda'r ysgolion
3. Cysylltu cymunedau â'i gilydd ac â'u hamgylchoedd:  
llwybrau defnyddiadwy i gysylltu â manau gwyrdd a'r arfordir; rôl cynghorau cymuned a grwpiau cymunedol; teithio sy'n fwy na gweithgar. Mae'r Cerddwyr wedi cyhoeddi'r daflen 'Paths for People', a byddant yn ymchwilio i sefydlu cysylltiadau agosach â fforymau mynediad lleol.
4. Helpu pobl i ddysgu am y llwybrau y maent yn gallu cerdded arnynt:  
Mapiau gwell ar-lein, sy'n dangos llwybrau caniatool; traws-gydymffurfio â thaliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin. Bydd y Cerddwyr yn llobio ac yn ymchwilio i gyfleoedd i ddylanwadu ar y Polisi Amaethyddol Cyffredin
5. Cyflawni'r gwelliannau sydd eu hangen ar y rhwydwaith llwybrau:  
Pwysigrwydd Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy a fforymau mynediad lleol; cyllid parhaus, monitro rôl fforymau mynediad lleol mewn Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy; adfywio fforymau mynediad lleol. Bydd y Cerddwyr yn monitro iechyd fforymau mynediad lleol a phwyso am ragor o gymorth.
6. Cadw llwybrau ar agor a sicrhau eu bod yn hawdd eu defnyddio:  
Y 24 tîm llwybrau gwirfoddol sydd gan y Cerddwyr – rydym am gael fframwaith Cymru gyfan sy'n gysylltiedig â'r agenda

sgiliau. Bydd y Cerddwyr yn arwain ar y trafodaethau hyn ac yn eu symud rhagddynt.

7. Trysori Llwybr Arfordir Cymru:  
Rydym am weld ymroddiad tymor hir a'r defnydd o bwerau i ddod â'r llwybr yn agosach i'r arfordir. Bydd y Cerddwyr yn rhoi cymorth trwy grŵp cyfathrebu Llwybr Arfordir Cymru.
8. Edrych o'r newydd ar ddeddfwriaeth ar gyfer gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored:  
Rydym am weld papur gwyrdd gweledigaethol ac arloesol. Bydd y Cerddwyr yn defnyddio cynlluniau busnes ac ein maniffesto a gweledigaeth deng mlynedd i bwysu am newid.
9. Sicrhau nad yw llwybrau'n cael eu colli:  
Rydym am gael rhagor o gymorth ar gyfer clirio ôl-groniad achosion, a diddymu'r dyddiad cau terfynol o 2026 ar gyfer cofnodi ffyrdd a gollwyd. Bydd y Cerddwyr yn monitro a phwysu am adnoddau.

Lansiwyd Papur Gwyrdd Llywodraeth Cymru *'Gwella cyfleoedd i gael mynediad i'r awyr agored ar gyfer gweithgareddau hamdden cyfrifol'* y diwrnod ar ôl y maniffesto, ac aeth ymateb y Cerddwyr i'r papur gwyrdd – 'Rhyddid i chwilota gyda'r wybodaeth i ddiogelu' – â gofynion y maniffesto i'r lefel nesaf.

Gwnaeth Rebecca gloi trwy bwysleisio'r hyn y mae maniffesto'r Cerddwyr yn ei ddweud amdanynt. Maent am gyflawni'r canlynol:

- dathlu a diogelu'r hyn sydd gennym
- dysgu pobl am yr awyr agored a sut i gael mynediad ato mewn ffordd gyfrifol
- sicrhau gwelliannau i fynediad
- gweithio mewn partneriaeth ag eraill

---

## 6. Rhaglen Ariannu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy: Cyflawniadau 2014-2015

Aeth Carys Drew trwy'r adroddiadau diwethaf ac uchelbwyntiau rhaglen waith y llynedd. Mae Rhaglen Ariannu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy yn gyllid a geir gan Lywodraeth Cymru, a weinyddir ar ei rhan gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n cynorthwyo awdurdodau i gyflawni eu gweithgareddau ar gyfer Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy, ac felly bodloni'r blaenoriaethau a bennir yn lleol. Rhwng 2008 a 2016, rhoddodd Llywodraeth Cymru £10.9 miliwn i awdurdodau; cafodd £1 miliwn o'r arian hwn ei ddyrannu yn ystod 2014-2015.

Mae awdurdodau yn darparu crynodebau o'r cynlluniau gwaith ar ddechrau'r flwyddyn, ac yno adroddiadau manylach ar ddiwedd y flwyddyn – wedyn mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn coladu'r rhain yn nifer o adroddiadau. Rhoddir gwybodaeth am y canlynol:

- Mathau o waith a'r manylion
- Er budd pwy y mae'r gwaith yn cael ei wneud
- Sut y gwneir y gwaith

Mae ystod y gwaith y gellir ei gynnwys yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn gallu cael ei hariannu trwy Raglen Ariannu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy. Mae'r mathau o waith yn cael eu categorio ac yn gallu cael eu grwpio fel gwaith sy'n gwneud y canlynol:

- effeithio'n uniongyrchol ar brofiad defnyddwyr
- annog y defnydd o lwybrau a hyrwyddo mynediad
- cyfrannu at reoli mynediad

Yn ystod 2014-2015, cafodd £760,505 o'r cyllid eu defnyddio i wella mynediad ar lawr gwlad a oedd yn bodoli eisoes.

Rhannodd Carys nifer o luniau 'cyn ac ar ôl', er mwyn dangos yr holl fathau o welliannau hyn, a nodi, fel y bu'r tueddiad dros y blynyddoedd diwethaf, mai bwriad mwy na hanner y prosiectau yw bod o fudd i fwy nag un grŵp o ddefnyddwyr (aml-fudd neu fudd cyffredin i bob defnyddiwr).

Bydd yr adroddiadau ar gyfer 2014-2015 ar gael yn fuan, ac mae rhagor o wybodaeth ar gael ar-lein yn:

<http://naturalresources.wales/out-and-about/recreation-and-access-policy-advice-and-guidance/grants-and-projects/rights-of-way-improvement-plans-and-funding/?lang=cy>

---

## 7. UNRHYW FATERION ARALL

Nododd Andrew Stumpf fod Bil Cymru yn cael ei drafod, ac ar hyn o bryd ei bod yn anodd gweld yr hyn y byddai'n cael ei gynnwys ynglŷn â phwerau wrth gefn. Mae'n bosibl yr hoffai cyrff eraill weld hyn a chyfrannu at y drafodaeth trwy bwyllgorau.

---

## 8. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Cadarnhawyd dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd nesaf fel a ganlyn:

- 8 Mawrth 2016 (Maes y Ffynnon, Bangor) (newid ar ôl y cyfarfod – 15 Mawrth 2016)
- 5 Gorffennaf 2016 (Canolbarth Cymru)
- 8 Tachwedd 2016 (Cymdeithas yr Hostelau Ieuenctid Caerdydd Canolog)

Dylai pawb nodi y bydd dyddiadau cyfarfodydd a phapurau bellach ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru:

<http://naturalresources.wales/out-and-about/recreation-and-access-policy-advice-and-guidance/networks-and-partnerships/national-access-forum-for-wales/?lang=cy>

---